

Cyfarwyddiadau taith gerdded *Dingle and the Darkie*

Oddeutu. 4 milltir / 2awr, neu daith gerdded o filltir gyda giatiau Mae'r daith hon yn dechrau gerllaw Tafarn y Duke of Wellington Public (cyfeiriad grid SJ 272 428) ac yn cysylltu gyda Safle Treftadaeth y Byd ger Dyfrbont Pontcysyllte a chefn gwlad. Gall cerddwyr sy'n dymuno dewis taith gerdded fyrrach fynd ar hyd y llwybr 1.5 milltir sy'n cynnwys giât mochyn hawdd ei defnyddio.

Cyfarwyddiadau i'r man cychwyn mewn car - Gyrrwch ar hyd yr A539 o Riwabon a mynd tuag at Langollen. Pan fyddwch yn mynd heibio'r peiriant golchi ceir ar y chwith a maes parcio mawr ar y dde, byddwch yn mynd heibio tafarn y Duke of Wellington Public ychydig wedi hynny ac yna throwch i'r dde yn y groesffordd, ac yna i'r dde ar unwaith i'r llecyn parcio.

Parcio– Mae lle i rai ceir barcio ar y stryd ger tafarn y Duke of Wellington.

Bysiau - Ceir sawl gwasanaeth rheolaidd i ddechrau'r daith. Ffoniwch 01978 266166 am wybodaeth am fysiau neu ewch i'n hamserlenni bysiau ar-lein.

- Dylid nodi y gall y rhan o'r daith gerdded fod yn fwdlyd mewn rhannau ac argymhellir gwisgo esgidiau addas. Ceir hefyd nifer o gamfeydd, llethrau serth a ffyrdd i'w croesi.
- Nid yw'r llwybr hwn yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn neu goets plant bach.
- Mae rhan o'r daith gerdded hon heb gamfeydd, gyda giatiau mochyn a llethrau cymedrol yn unig. Argymhellir gwisgo esgidiau addas.

Cyfarwyddiadau'r daith gerdded

Gan ddechrau o dafarn y Duke of Wellington ewch i'r dde tuag at gyffordd y ffordd a mynd i fyny'r bryn. Ychydig wedyn dewch ag giât mochyn (GM) ar y chwith. Ewch ar draws y cae drwy GM arall, a throwch i'r chwith. Wedi cerdded 20m ewch tuag at y dde. Ewch yn syth ymlaen dros y bont laswelltog, i fynd i'r cae drwy GM arall.

Cerddwch ar draws y cae a mynd drwy'r GM yn y gornel (i lawr pant bach, felly'n dibynnu ar yr amser o'r flwyddyn, efallai y bydd hwn yn llawn dail), ewch ymlaen ar i fyny gan fynd rhwng ffens ar eich chwith a choed ar eich ochr dde. Ewch drwy'r GM nesaf ac ewch ymlaen a thrwy'r GM sydd yn y pellter. Ewch ar i lawr ar draws nant fechan, a mynd yn syth ymlaen i fyny'r cae drwy GM arall.

** Dyma pryd fydd y llwybr ysgafn yn gwahanu o'r brif daith gerdded. Os ydych yn dilyn y llwybr ysgafn parhewch i ddarllen o ***

Bron ar unwaith trowch i'r chwith i groesi camfa, ac ewch ar draws cae, i gamfa arall i llwybr caeedig, ac yna ar ôl tua 20m metr ewch dros gamfa ar y dde i fynd tuag at y chwith i fynd drwy goetir. Ewch dros y gamfa, ac ar i lawr ac yna i fyny drwy'r coed a syth ymlaen. Pan fyddwch yn mynd heibio coeden dderw fawr ar yr ochr chwith bydd gamfa (yn dibynnu ar yr amser o'r flwyddyn efallai y bydd rhan ohoni wedi ei chuddio yn y gwrych) o'ch blaen. Ewch dros hon ac ewch heibio'r gwrych ar y chwith. Ewch drwy fynedfa a bron ar unwaith trowch i'r chwith. Ewch dros y gamfa i'r chwith i'r polyn telegraff. Trowch ar unwaith i'r dde i fynd ar draws grid gwartheg, yna cerddwch ar hyd y llwybr yna drwy fuarth y fferm. Ewch drwy sawl giât nes bydd y llwybr yn mynd ar i lawr ac yna ar i fyny i'r dde i fynd heibio mynedfa ar eich chwith.

Ewch ymlaen ar draws y cae i fynd dros gamfa, yna ewch 45° i'r chwith i fynd dros gamfa'r ffordd. Parhewch ar hyd y ffordd i fynd cyn bo hir ar y llwybr ar y dde i groesi ar i lawr, dros nant, yna i fyny llethr eithaf serth. Trowch i'r dde o flaen y bwthyn carreg (gyda'r cartrefi gwyliau ar y chwith), a pharhewch ymlaen drwy'r mynedfeydd. Yn iard y pren defnyddiwch y giât ar y chwith a mynd syth ymlaen tuag at linell y goeden. Ewch dros y gamfa, dros y bont droed yna syth ymlaen drwy'r giatiau ar hyd llwybr bach. Cymerwch y giât fetel bach sydd ymlaen (i'r chwith o'r tŷ gyda'r giatiau dwbl) ac ar hyd y llwybr. Ewch dros sawl camfa a chaeau ac yn y diwedd trowch i'r dde ger ochr y ffordd, gan droi i'r dde yn y ddwy gyffordd ffordd gul nesaf, i groesi camfa ar eich chwith i mewn i gae. Ewch ymlaen i lawr yr allt a mynd dros ddwy gamfa. Ewch ychydig i'r chwith i fynd drwy fynedfa, ac yna ar ôl 65m trowch i'r dde i fynd dros ddwy gamfa mewn coetir bychan. Trowch i'r chwith a mynd tuag at y golau stryd du / arena ceffylau. Ewch tuag at y dde a myned heibio ardal o goetir bach arall i fynd dros y gamfa.

Ewch ymlaen ar draws cae mawr ac yn y diwedd dylech sylwi ar agoriad i'r dde mewn llwyni tal. Croeswch y bont, a pharhau i fynd ymlaen, yna ewch tuag at y dde ar hyd llwybr glaswelltog suddedig. Cadwch i'r dde i'r rheilffordd bren sydd wedi ei ddatgymalu ac ewch syth ymlaen i ddod allan mewn cae agored. Ewch heibio i hen adeilad ar y chwith, yna trowch i'r dde o'i flaen a mynd ar hyd llwybr pridd. Trowch i'r chwith a mynd ar i lawr i fynd dros gamfa sy'n cysylltu â'r 'Darkie'. Cadwch i fynd yn syth ymlaen ar hyd y llwybr gydag arwyneb ac yna byddwch yn ailymuno yn yr ardal parcio ceir ger y dafarn.

*** Parhau ar y llwybr ysgafn.*

Ewch syth ymlaen drwy ddwy fynedfa, ac ewch tuag at y dde i fynd dros GM ar ochr y ffordd. Trowch i'r dde a mynd ar i lawr ar hyd y ffordd nes y byddwch yn y diwedd yn troi i'r chwith i gyrraedd yr ardal barcio ceir ger y dafarn.